**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/08790/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

15 Ionawr 2019

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â deiseb P-05-936 Cynnig Prawf Sgrinio Canser y Coluddyn ar ôl 74 oed.

O ran sgrinio poblogaethau, mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn darparu cyngor i Weinidogion ym mhedair gwlad y DU ynglŷn â sut y dylid gweithredu'r rhaglenni hyn. Mae'r Pwyllgor yn meddu ar y trylwyredd a'r awdurdod academaidd i drafod materion hynod gymhleth o'r fath, gan ei fod yn arwain y byd yn y maes, ac ar ôl pwyso a mesur y dystiolaeth sydd ar gael, nid yw'r Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol yn argymell y dylid sgrinio pobl dros 74 oed ar gyfer canser y coluddyn. Mae yna risgiau sy'n gysylltiedig â sgrinio poblogaethau, ac felly mae angen cynnal cydbwysedd rhwng y manteision a'r niwed a allai ddigwydd o ganlyniad i gynnig y prawf sgrinio. Pe bai pobl sy'n hŷn na'r grŵp oedran a argymhellir, nad oes ganddynt symptomau, yn cael eu sgrinio ar gyfer canser y coluddyn, gallai unrhyw risgiau, a fyddai'n codi yn sgil canlyniadau positif ffug a'r archwiliadau dilynol, fod yn fwy na'r manteision iddynt.

Ein polisi ni yng Nghymru yw gweithredu system sgrinio yn seiliedig ar dystiolaeth, gan wneud hynny mewn modd sydd wedi ei argymell gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Mae'r Pwyllgor Sgrinio hwn yn argymell cynnig prawf sgrinio ar gyfer canser y coluddyn i bobl rhwng 50 a 74 oed, ac nid yw wedi gwneud argymhelliad i sgrinio pobl dros 74 oed. Ni fyddai'n ffordd ddiogel na darbodus o ddarparu gwasanaethau iechyd pe baem yn gweithredu y tu hwnt i gyngor y Pwyllgor Sgrinio, drwy wneud rhywbeth nad yw wedi ei argymell gan nad oes tystiolaeth y byddai'n dod â mwy o fanteision nag o niwed.

Rwy'n ymwybodol y caniateir i bobl dros 74 oed wneud hunanatgyfeiriadau at y rhaglen sgrinio ar gyfer canser y coluddyn yn Lloegr ac yn yr Alban. Fodd bynnag, nid yw rhaglenni yn y rhan fwyaf o wledydd ond yn cynnig gwasanaeth sgrinio ar gyfer canser y coluddyn i bobl nes iddynt gyrraedd 74 oed, ac nid ydynt yn caniatáu hunanatgyfeiriadau ar ôl yr oedran hwnnw am yr un rhesymau â Llywodraeth Cymru. Nid yw Gogledd Iwerddon, Seland Newydd nac Awstralia yn caniatáu hunanatgyfeiriadau i bobl dros 74 oed. Yn yr Unol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Daleithiau a Chanada, ni chaniateir hunanatgyfeiriadau i bobl dros 75 oed, ond gall pobl gael eu hasesu fel unigolion gan eu meddyg teulu, gyda’r posibilrwydd o gael eu sgrinio dim ond os bydd hynny’n cael ei ystyried yn rhywbeth priodol. Serch hynny, ni chynigir y prawf hwn ar ôl iddynt gyrraedd 85 oed, gan nad yw sgrinio’n cael ei ganiatáu ar ôl yr oedran hwnnw. Nid yw sefyllfa felly’n annhebyg i’r sefyllfa sy’n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru, gan fod unrhyw un dros 74 oed yn gallu trafod eu pryderon gyda’i feddyg teulu a fydd yn penderfynu a oes angen archwiliad pellach ai peidio. Dylai pawb sydd â symptomau canser y coluddyn gael eu hatgyfeirio ar gyfer cael archwiliad buan o dan y broses atgyfeirio brys a ddefnyddir lle y mae amheuaeth o ganser.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu’r rhaglen i gynnwys dynion a menywod 50-59 oed, a hynny erbyn 2023. Mae’r risg y gallai rhywun gael canser y coluddyn yn cynyddu’n gyflym ar ôl cyrraedd 50 oed, ac mae’r dystiolaeth yn dangos y byddai sgrinio pobl yn y grŵp oedran hwnnw yn golygu y byddai mwy o achosion o ganser y coluddyn yn cael eu canfod yn gynharach, pan fo’n debygol y gallai triniaethau fod yn fwy effeithiol, gan wella’r posibilrwydd y byddai’r claf yn goroesi.

Ers mis Ionawr 2019, bu’r rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru yn darparu profion ysgarthol imiwnocemegol newydd fel rhan o’r rhaglen sgrinio arferol. Yn ogystal â bod yn fwy cywir ei ganlyniadau, mae’r prawf newydd hwn yn haws ei ddefnyddio, ac mae’r dystiolaeth yn dangos y bydd mwy o bobl yn manteisio ar y rhaglen sgrinio oherwydd hynny. Hefyd rydym yn bwriadu gwella sensitifrwydd y prawf newydd hwn yn raddol yn ystod y pedair blynedd nesaf er mwyn canfod rhagor o achosion o ganser.

Rwy’n cydnabod bod gwahaniaethau rhwng yr hyn a gynigir gan y rhaglenni a ddarperir yng ngwledydd y DU, a bod rhai pobl yn dymuno parhau i gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio ar ôl cyrraedd 74 oed. Fodd bynnag, mae gan bob rhaglen sgrinio y potensial i wneud niwed. Dylai’r manteision i gleifion a’u diogelwch fod yn flaenoriaeth wrth wneud unrhyw benderfyniad i ddarparu gwasanaeth sgrinio.

Ym mis Tachwedd 2019, bu Pwyllgor Sgrinio Cymru yn ystyried safbwynt polisi Llywodraeth Cymru i beidio â chaniatáu hunanatgyfeiriadau sgrinio’r coluddyn i bobl dros 74 oed. Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod angen mwy o eglurder o ran safbwynt Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU cyn ystyried ymhellach a ddylid caniatáu hunanatgyfeiriadau i bobl dros 74 oed. Mae Cadeirydd Pwyllgor Sgrinio Cymru wedi ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn gofyn am yr eglurder perthnasol. Yn y cyfamser, mae’n bwysig canolbwyntio ar gyflwyno’r gwasanaeth sgrinio i bobl 50-59, gan fod y dystiolaeth yn dangos bod manteision i hynny, yn ogystal â gwella sensitifrwydd y prawf. Os bydd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn argymell y dylid caniatáu hunanatgyfeiriadau i bobl dros 74 oed, neu y dylid codi’r terfyn oedran, byddwn yn ystyried sut y gallwn gynnig hynny yng Nghymru.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services